# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Meithrinfa a Chyn-ysgol Blueberry Bears**

**1 Burt Street**
Bae C**aerdydd**
**Caerdydd**
**CF10 5FZ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Cofnodwch y Dyddiad â Llaw**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae BBN Limited wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gofal ar gyfer hyd at 42 o blant ym Meithrinfa a Chyn-ysgol Blueberry Bears. Maent yn gofalu am blant rhwng wyth wythnos a phum mlwydd oed o 7.45am hyd at 6.00pm yn ystod yr wythnos. Mae'r gwasanaeth yn cynnig gofal cofleidiol ar gyfer plant sy'n mynychu Ysgol Hamadryad. Mae'r sefydliad wedi penodi unigolyn cyfrifol i weithredu ar ei ran, ac mae person â gofal sy'n briodol gymwys a phrofiadol wedi'i enwebu i redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'n wasanaeth dwyieithog.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant sy'n mynychu'r gwasanaeth wedi ymgartrefu'n dda ac maent yn cymryd rhan yn hapus yn y chwarae a'r dysgu. Gwnaethom eu gweld yn derbyn gofal sylwgar gan staff sy'n ymatebol a meithringar. Mae cofnodion cynllunio a datblygiadol yn gadarn. Mae'r amgylchedd yn addas ar gyfer y plant sy'n mynychu ac mae gan blant fynediad at ardal ddiogel yn yr awyr agored. Mae'r arweinwyr wedi'u cymell i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r holl argymhellion o ran diffyg cydymffurfio ac arfer da wedi cael sylw yn cynnwys bod gwiriadau addasrwydd staff yn cael eu cwblhau cyn bod staff newydd yn dechrau, bod cofnodion datblygiad plant yn cael eu gwella, a bod polisïau yn cael eu diweddaru.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Nid yw'r gwasanaeth yn bodloni'i holl gyfrifoldebau cyfreithiol i sicrhau bod cymarebau staffio yn cael eu cynnal a sicrhau bod staff yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd. Nid ydym wedi cyhoeddi hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â'r rhain gan nad oeddem wedi nodi yn ystod yr arolygiad unrhyw risg neu effaith sylweddol ar blant o ganlyniad iddynt.

Gwnaethom rai argymhellion arfer da o ran themâu gofal a datblygiad a’r amgylchedd, sydd wedi'u crynhoi ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn derbyn gwasanaeth meithringar sy'n gosod seiliau da iddynt ar gyfer dysgu a datblygu.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Mae'r plant yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn dda ac maen nhw'n cyfleu eu hanghenion mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd. Gwelsom fod y staff yn deall eu hanghenion, hoffterau a theimladau a bod y rhain yn cymryd blaenoriaeth dros y drefn ddyddiol. Gwelsom fod plant yn mynd at y staff gyda hyder i sgwrsio neu i ofyn am gymorth. Gwelsom fod y plant, gydag anogaeth y staff, yn dewis beth yr oeddent eisiau chwarae ag ef ac roeddent yn amlwg yn gyfarwydd iawn â'r gweithgareddau a'r ardaloedd oedd ar gael.

Mae hawl y plant i fynegi eu hunain yn rhydd a gwneud dewisiadau annibynnol yn cael ei hannog a'i pharchu yn y gwasanaeth.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn gyfarwydd â threfn feunyddiol y gwasanaeth, sy'n rhoi ymdeimlad o sicrwydd ac o berthyn iddynt. Mae'r plant wedi datblygu cyswllt amlwg gyda'r staff ac mae system gweithiwr allweddol ar waith. Mae gweithdrefn ymgartrefu ar waith sy'n rhoi amser i'r plant ymgyfarwyddo ag arferion y gwasanaeth ac i ddod i adnabod eu gweithwyr allweddol ar eu cyflymder eu hunain. Mae gweithdrefn ymgartrefu ar waith sy'n rhoi amser i'r plant ymgyfarwyddo ag arferion y gwasanaeth ac i ddod i adnabod eu gweithwyr allweddol ar eu cyflymder eu hunain. Gwelsom fod staff, ym mhob maes o'r gwasanaeth, yn galonogol tuag at y plant, yn rhoi canmoliaeth am gyflawniadau ac yn cydnabod pan oedd angen cymorth pellach arnynt. Mae'r plant yn gyfforddus, wedi ymgartrefu ac yn ymlaciedig ac maent yn mynd at y staff pan mae angen help neu gymorth arnynt.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn y gwasanaeth hwn, sy'n eu gwerthfawrogi a'u hyrwyddo fel unigolion.

### 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio ac yn cydweithredu'n dda gyda'u cyfoedion ac oedolion, ac maent yn dysgu i fynegi'r hyn sydd ei angen arnynt. Mae'r plant yn gwrtais, yn foesgar ac yn ymddwyn yn dda. Gwelsom fod y plant yn chwarae'n hapus. Roedd y staff yn ymddwyn fel modelau rôl da ac roeddent yn dangos parch tuag at y plant a'i gilydd. Roeddent yn atgoffa'r plant i fod yn garedig ac i rannu teganau. Clywsom y plant yn dweud os gwelwch yn dda a diolch yn rheolaidd ac roeddent yn cael clod

mawr am foesau da. Roedd y plant yn dawel ac yn ymlaciedig yn ystod ein hymweliadau ac roedd gan y plant hŷn gyfeillgarwch amlwg gyda'i gilydd.

Mae'r plant yn cael profiad o ryngweithiadau cadarnhaol gyda'i gilydd.

**1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?**

Mae'r plant yn cymryd rhan lawn yn eu chwarae a'u dysgu, ond maent hefyd yn gallu ymlacio a mwynhau amserau tawel. Mae ganddynt y rhyddid i archwilio eu hamgylchedd o dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn gallu canolbwyntio am gyfnod priodol o amser ar gyfer eu cam datblygu. Gwelsom fod gan y plant fynediad at amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau. Drwy gydol y diwrnod, roedd cydbwysedd o gyfleoedd chwarae a oedd wedi'u llywio ganddynt eu hunain a chyfleoedd chwarae a oedd wedi'u llywio gan oedolyn ar gael i'r plant ddewis ohonynt. Gwelsom fod plant yn gallu ymuno â gweithgaredd a oedd wedi'i lywio gan oedolyn ac roedd ganddynt y rhyddid i adael ac ymgymryd â gweithgaredd arall ar unrhyw adeg. Gwnaeth hyn arwain at amgylchedd prysur ond ymlaciedig, lle'r oedd y plant wedi ymgolli yn eu chwarae a dysgu o'u dewis eu hunain.

Mae'r plant yn mwynhau profiadau chwarae a dysgu da yn y gwasanaeth hwn sy'n cydnabod pwysigrwydd cyfleoedd chwarae'r plant ar gyfer eu datblygiad cyffredinol.

**1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?**

Cynigir amrywiaeth dda o brofiadau i'r plant, gan gynnwys chwarae distrwythur a ddewisir yn rhydd a chwarae a gyfarwyddir yn bersonol. Mae hyn yn eu galluogi i ennill amrediad da o sgiliau, i fod yn annibynnol, i gymryd rhan, i ddilyn diddordebau ac i hyrwyddo'u datblygiad cyffredinol. Maent yn gwneud cynnydd da, maent yn hyderus i roi cynnig ar bethau newydd ac maent yn cael eu hannog i gymryd risgiau priodol. Roedd proffiliau asesu'r plant yn dangos tystiolaeth eu bod yn datblygu sgiliau newydd yn unol â thargedau penodol. Mae rhai plant yn annibynnol iawn. Maent yn gwisgo'u cotiau eu hunain cyn mynd allan i chwarae ac maent yn eu dychwelyd i beg pan maent o dan do.

Mae'r plant yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r feithrinfa i sicrhau diogelwch plant, ac yn darparu gofal cynnes ac ymatebol. Mae cynllunio gweithgareddau a chofnodion datblygiadol y gwasanaeth yn gadarn. Gwnaethom rai argymhellion arfer da sy'n ymwneud â'r thema hon.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw’r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn eglur am eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel. Mae polisi diogelu ar waith sy'n cynnwys y Ddyletswydd Atal, ac mae'r staff wedi mynychu hyfforddiant amddiffyn plant. Darperir prydau bwyd a byrbrydau i'r plant sydd wedi'u paratoi gan gogydd y feithrinfa. Mae'r feithrinfa’n rhan o'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy. Darparwyd dewis o laeth neu ddŵr i'r plant gael yfed amser prydau bwyd, ond nid oedd ganddynt fynediad at ddŵr yfed y gallent ei nôl drostynt eu hunain yn ystod y dydd. Darparwyd dewis o laeth neu ddŵr i'r plant gael yfed amser prydau bwyd, ond nid oedd ganddynt fynediad at ddŵr yfed y gallent ei nôl drostynt eu hunain yn ystod y dydd. Mae'r plant yn cael eu hatgoffa i olchi eu dwylo ar amserau priodol, ac maent yn cael eu hannog i frwsio eu dannedd fel rhan o fenter brwsio dannedd 'Cynllun Gwên'. Roedd y cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn cael eu cwblhau'n effeithlon ac roeddent yn cael eu hadolygu’n rheolaidd ac roedd llofnodion rhieni/gofalwyr i’w gweld. Mae gan y gwasanaeth system gofnodi ar waith ar gyfer cofnodi anafiadau blaenorol y plant sy'n mynychu'r gwasanaeth. Roedd polisi meddyginiaeth ar waith, ac roedd cofnodion meddyginiaeth ar y cyfan wedi'u cwblhau yn dda, ond roedd un cofnod heb gael ei lofnodi gan riant.

Mae'r staff yn y gwasanaeth yn sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae'r staff yn rheoli rhyngweithio'n briodol. Mae polisi rheoli ymddygiad ar waith. Mae'r staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol gan eu bod yn ymddwyn fel modelau rôl da ac maent yn trin ei gilydd a'r plant gydag ystyriaeth a pharch. Clywsom lawer o ganmoliaeth a chydnabyddiaeth o waith, ymdrech ac ymddygiad da ac roedd hyn yn cael ei werthfawrogi gan y plant. Roedd ymddygiad annerbyniol yn cael ei herio mewn modd sensitif. Roedd y staff yn esbonio pam nad oeddent eisiau gweld ymddygiad penodol ac roeddent yn annog y plant i fod yn garedig, yn ystyriol ac yn ofalgar.

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o reoli rhyngweithio'r plant.

### 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn darparu amrediad o weithgareddau a chyfleoedd i chwarae sy'n gwella datblygiad y plant. Mae proffiliau 'Dod i f'adnabod' ac asesiadau llinell sylfaen yn cael

eu cwblhau pan mae plentyn yn dechrau gyda'r gwasanaeth, ac roedd dulliau olrhain cynnydd unigol ar waith ar gyfer bob plentyn gyda thystiolaeth ffotograff ar gyfer cyflawniadau a cherrig milltir a gyrhaeddwyd. Mae'r camau nesaf ar gyfer addysg y plant yn cael eu nodi a chynllunnir ar eu cyfer. Mae’r gwaith cynllunio gweithgareddau yn seiliedig ar saith maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen, ac maent yn cynnwys dathliadau o ddiwylliannau eraill yn cynnwys y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Santes Dwynwen a Diwali.

Mae staff yn darparu cyfleoedd ar gyfer annibyniaeth i'r plant, ond canfuom nad oedd yr holl blant yn derbyn yr un cyfleoedd ar gyfer annibyniaeth amser cinio. Buom yn arsylwi'r drefn arferol ar gyfer amser cinio yn yr ystafell cyn-ysgol a chanfuom nad oedd y plant a oedd wedi cyrraedd ar ôl bod yn yr ysgol yn cael cyfleoedd i weini eu bwyd eu hunain nac i arllwys eu diodydd eu hunain. Roedd hyn am fod y staff yn cymryd amser i'w newid o'u gwisgoedd ysgol. Roedd y plant hefyd yn cael eu newid yn yr un ystafell â’r plant eraill a oedd yn bwyta'u cinio. Roedd y plant hefyd yn cael eu newid yn yr un ystafell â’r plant eraill a oedd yn bwyta'u cinio. Gwnaethom drafod hyn gyda'r person â gofal a wnaeth gytuno i ailystyried trefniadau cinio i sicrhau bod urddas yr holl blant yn cael ei barchu a'u bod i gyd yn cael yr un cyfleoedd am annibyniaeth. Gwnaethom drafod hyn gyda'r person â gofal a wnaeth gytuno i ailystyried trefniadau cinio i sicrhau bod urddas yr holl blant yn cael ei barchu a'u bod i gyd yn cael yr un cyfleoedd am annibyniaeth.

Mae staff yn darparu cyfleoedd ar gyfer chwarae, dysgu, a datblygu ac mae'r plant yn elwa ar hyn. Dylid ailystyried  trefn arferol amser cinio.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r plant yn elwa ar amgylchedd lliwgar a chroesawgar. Mae'r feithrinfa yn gweithredu ar y llawr daear mewn eiddo preswyl sydd wedi'i addasu. Mae'r adeilad yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dda. Mae gan blant fynediad at ardd gefn wedi'i hamgáu ar gyfer chwarae yn yr awyr agored a gwneir hynny'n ddyddiol. Mae systemau ar waith i reoli risgiau a materion iechyd a diogelwch. Canfuwyd rhai meysydd yr oedd angen eu gwella ac roedd y person â gofal yn barod i dderbyn yr adborth a ddarparwyd.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i’r plant. Mae mynediad i'r feithrinfa drwy ddrws ffrynt sydd wedi'i gloi, ac mae system mynediad ôl-bys yn cael ei defnyddio gan rieni sy'n gollwng a chasglu eu plant. Mae system CCTV ar waith mewn ardaloedd cymunedol ac mae ymwelwyr i'r gwasanaeth yn gorfod llofnodi i mewn ac allan. Mae systemau diogelwch tân da ar waith ac mae cofnodion ymarferion tân yn cael eu cadw. Gwelsom restrau gwirio diogelwch dyddiol yn cael eu cwblhau gan staff ar gyfer yr ardaloedd dan do ac awyr agored. Mae gwasanaethau nwy a thrydan yn cael eu gwirio yn unol â chanllawiau a argymhellir ac mae gan y darparwr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith.
Roedd y gwasanaeth wedi’i gofrestru fel darparwr bwyd gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd ac wedi derbyn dyfarniad o bump.

Gall rhieni fod yn sicr bod y staff yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel.

### 3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Darperir lle digonol i’r plant fwynhau mathau amrywiol o chwarae. Mae plant yn yr ystafell cyn- ysgol yn gallu symud rhwng yr ardal dan do a'r awyr agored pan mae'r tywydd yn caniatáu. Mae'r ardal awyr agored wedi cael ei datblygu ers yr arolygiad diwethaf, ond byddai plant yn elwa petaent yn cael mwy o adnoddau. Gwelsom waith y plant a ffotograffau yn cael eu harddangos o amgylch y feithrinfa, ac roedd hyn yn creu naws gynnes a lliwgar oedd yn rhoi ymdeimlad o berthyn i’r plant. Roedd ystafell ymolchi’r plant yn cynnwys toiledau o'r maint cywir ar gyfer y plant a basnau ymolchi lefel isel. Gwelsom hefyd wybodaeth berthnasol yn cael ei harddangos i rieni yn ardal y fynedfa, megis cynllunio gweithgareddau, y dystysgrif gofrestru, bwydlenni wythnosol a ffotograffau o'r staff.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei gynnal yn dda ac yn addas i ofalu am anghenion y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r offer?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant fynediad i adnoddau ac offer o ansawdd da. Mae gan y feithrinfa gelfi sy'n addas ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant. Yn yr ystafell i blant bach, roedd droriau wedi'u labelu i gynorthwyo plant i ddewis adnoddau ac roedd adnoddau wedi'u storio mewn ffordd a oedd yn annog plant i chwarae gyda nhw, ond nid oedd hyn yn gyson drwy ystafelloedd y feithrinfa. Roedd rhywfaint o arwyddion dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) o amgylch y feithrinfa ac roedd yr ystafelloedd wedi'u haddurno'n llachar gydag arddangosfeydd wal, ond roedd y nifer o arddangosfeydd ac adnoddau oedd yn dathlu diwylliannau eraill yn gyfyngedig.

Mae datblygiad y plant yn cael ei gynorthwyo gan amrediad o adnoddau sydd ar gael iddynt, ond mae angen gwneud rhai gwelliannau.

# 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

## Crynodeb

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn effeithiol mewn nifer o feysydd, ond nid yw’r gwaith o reoli adnoddau staff bob amser yn cael ei gyflawni’n effeithiol. Mae'r gwasanaeth yn un o nifer o feithrinfeydd a weithredir gan y cwmni cyfyngedig, ac mae strwythur cymorth rheoli clir ar waith. Mae systemau effeithiol ar waith i fonitro a datblygu'r ddarpariaeth. Mae rhieni sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn canmol y feithrinfa'n fawr.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae gan y gwasanaeth ystod o bolisïau a gweithdrefnau  sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, sydd ar gael yn barod ac sy’n cael eu rhannu â rhieni. Mae'r datganiad o ddiben yn darparu gwybodaeth fanwl i rieni i’w cynorthwyo wrth benderfynu a yw'r gwasanaeth yn addas i'w plentyn. Mae slipiau caniatâd yn cael eu cwblhau gan rieni o ran gwibdeithiau, eli haul a thriniaeth feddygol. Mae cofnodion y plant, cofrestri presenoldeb a gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal yn dda. Fel gwasanaeth dwyieithog, mae'r cynnig gweithredol o ran y Gymraeg yn cael ei ddarparu.

Mae'r staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae systemau ar waith er mwyn hunanwerthuso'r gwasanaeth. Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal. Mae polisi cwynion ar waith pe bai rhieni eisiau codi mater. Roedd y datganiad hunanasesu gwasanaeth a'r adolygiad ansawdd gofal wedi cael eu cwblhau ac roedd safbwyntiau rhieni, plant a'r staff wedi'u casglu. Gwelsom fod cynllun gweithredu ar waith ar gyfer gwelliannau a gynlluniwyd ar gyfer y gwasanaeth.

Mae gan y gwasanaeth systemau effeithiol i gynllunio ar gyfer gwella.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau staff a chanfuom eu bod wedi'u cwblhau yn dda. Mae proses sefydlu ar waith ar gyfer staff sydd newydd eu penodi. Roedd gan yr holl staff wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac roedd bob gwiriad addasrwydd wedi'i gwblhau cyn bod staff yn dechrau yn y gwasanaeth. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant priodol ac roedd matrics hyfforddi ar waith. Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys tystiolaeth o arfarniadau blynyddol, ond cadarnhaodd y person â gofal a'r holiaduron a dderbyniwyd nad oedd staff yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd. Yn ystod yr arolygiad gwnaethom nodi bod y gymhareb staff i blant yn annigonol yn yr ystafell fabanod yn ystod seibiannau'r staff. Gwnaethom roi gwybod i'r person â gofal fod y rhain yn feysydd o ddiffyg cydymffurfio, ond nid ydym wedi cyflwyno hysbysiadau

gan na wnaethom nodi risg neu effaith ar y plant yn ystod yr arolygiad o ganlyniad i ddiffyg cydymffurfio.

Yn gyffredinol mae'r dull o reoli’r staff yn effeithiol, ond mae'n rhaid i'r staff dderbyn goruchwyliaeth reolaidd ac mae'n rhaid cynnal y gymhareb oedolion i blant bob amser.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan y lleoliad berthnasau da gyda rhieni ac mae ganddo bartneriaethau effeithiol gyda'r gymuned leol. Mae'r gwasanaeth yn aelod o sefydliad ambarél sy'n darparu cymorth os bydd angen. Roedd cofnodion yn dangos bod y rhieni yn cwblhau contractau a ffurflenni gwybodaeth bersonol cyn i’w plant ddechrau yn y gwasanaeth. Mae nosweithiau rhieni'n cael eu cynnal yn flynyddol, ac mae rhieni yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau trwy newyddlenni, y cyfryngau cymdeithasol a hysbysfwrdd. Dywedodd y person â gofal wrthym fod y gwasanaeth wedi adeiladu cysylltiadau gwerthfawr gyda'r ysgol leol er mwyn helpu i sicrhau proses bontio ddidrafferth pan fydd y plant yn symud ymlaen o'r feithrinfa. Dywedodd y person â gofal wrthym fod y gwasanaeth wedi adeiladu cysylltiadau gwerthfawr gyda'r ysgol leol er mwyn helpu i sicrhau proses bontio ddidrafferth pan fydd y plant yn symud ymlaen o'r feithrinfa. Gwelsom dystiolaeth fod y plant yn mynd ar wibdeithiau o fewn y gymuned leol.

Mae partneriaethau yn effeithiol ac yn hybu canlyniadau cadarnhaol i’r plant a’r rhieni/gofalwyr sy’n defnyddio’r gwasanaeth.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom drafod yr argymhellion arfer da canlynol gyda'r person â gofal;

- Dylai'r plant gael mynediad at ddŵr i’w yfed drwy gydol y dydd;
- datblygu'r ardal awyr agored er mwyn darparu mwy o gyfleoedd chwarae a dysgu;
- ailystyried trefniadau arferol amser cinio i sicrhau bod urddas y plant yn cael ei barchu a bod pob plentyn yn cael cyfleoedd i fod yn annibynnol;
- sicrhau bod yr holl gofnodion meddyginiaeth yn cael eu llofnodi gan rieni;
- ailystyried sut mae adnoddau yn cael eu harddangos a storio yn yr ystafell cyn-ysgol er mwyn eu gwneud yn fwy dymunol i'r plant;
- cynyddu nifer yr adnoddau ac arddangosfeydd amlddiwylliannol.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad llawn oedd hwn, wedi'i gynnal fel rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau;

- Gwnaeth un arolygydd ddau ymweliad â'r gwasanaeth, ni chyhoeddwyd yr un gyntaf;
- gwnaethom gwblhau archwiliad gweledol o'r safle;
- gwnaethom arsylwi ar arferion gofal;
- gwnaethom siarad â staff;
- gwnaethom ystyried y wybodaeth a oedd ar gael i AGC, gan gynnwys datganiad hunanasesu'r gwasanaeth;
- Gwnaethom edrych ar amrediad eang o gofnodion. Gwnaethom ganolbwyntio ar y datganiad o ddiben, y polisi diogelu, y polisi rheoli ymddygiad, contractau'r plant a ffeiliau'r staff;
- gwnaethom ystyried yr adborth a ddarparwyd mewn dau holiadur AGC ar gyfer staff ac wyth holiadur AGC ar gyfer rhieni.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal dydd plant**<br>**Gofal dydd llawn** |
| **Unigolyn cyfrifol** | **Robert Bennett** |
| **Person â gofal** | **Carys Wenner** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **42** |
| **Ystod oedran y plant** | **0 hyd at 5 oed** |
| **Oriau agor** | **7.45am i 6pm yn ystod yr wythnos** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy iaith** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **25 Awst 2015** |
| **Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn** | **14 Mai 2018 a 16 Mai 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, nodi a bodloni anghenion y bobl sy'n defnyddio neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth o ran yr iaith Gymraeg a'i diwylliant.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol: Dim** | |